Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg/College Road
Caerfyrddin/Carmarthen
SA31 3EQ

Cadeirydd/Chairman:
Andrew Green
Prif Weithredwr/Chief Executive:
Dr Ioan Matthews

Ffôn/Phone:
01267 610400
Ebost/Email:
gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk
www.colegcymraeg.ac.uk

Cynllun Staffio Academaidd 2015/16

Dyddiad:	19 Medi 2014
Cyfeirnod:	14/02
At:	Penaethiaid sefydliadau addysg uwch Cymru, penaethiaid sefydliadau addysg bellach Cymru sy'n darparu addysg uwch a gyllidir yn uniongyrchol gan y Cyngor Cyllido, Grŵp Ymgynghorol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cydlynwyr Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg sefydliadol.
Ymateb Erbyn:	Ceisiadau i'w cyflwyno erbyn 21 Tachwedd 204
Cyswllt:	Dr Dylan Phillips
E-bost:	d.phillips@colegcymraeg.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn gwahodd ceisiadau am swyddi academaidd wedi eu cyllido drwy Gynllun Staffio Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 21 Tachwedd 2014.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Cynllun Staffio Academaidd 2015/16

Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn gwahodd ceisiadau am swyddi academaidd i'w cyllido gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol [y Coleg]. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau fydd 21 Tachwedd 2014.

2. Bydd nifer y swyddi newydd a fydd yn cael eu cyllido i gychwyn yn 2015/16 yn dibynnu, i raddau, ar gostau cyflogaeth tebygol y swyddi a ddyfernir ac ar ystyriaethau cyllidol eraill. Rhagwelir, fodd bynnag, y bydd y Coleg yn dyfarnu hyd at ugain o swyddi newydd. Bydd y sefydliadau llwyddiannus yn gyfrifol am yr holl drefniadau cyflogaeth.

3. Hon fydd pumed blwyddyn y Cynllun Staffio Academaidd a'r flwyddyn olaf o ddyfarniadau i ddeillio o'r trefniadau cyllidol a roddwyd mewn lle adeg sefydlu'r Coleg. Nid oes modd cadarnhau'r amserlen ar gyfer gwahodd ceisiadau pellach am nawdd i gyllido swyddi academaidd tan i gyllideb y Coleg ar gyfer y tymor canolog gael ei chadarnhau.

Egwyddorion Craidd

4. Mae'r Cynllun Staffio Academaidd yn rhan annatod o brosesau cynllunio academaidd y Coleg. Prif amcan y Cynllun yw meithrin darlithwyr o'r radd flaenaf sy'n adnabyddus am flaengarwch a rhagoriaeth ym maes dysgu ac ymchwil. Mae'r cynllun yn galluogi sefydliadau sy'n darparu addysg uwch i gyfrannu at ddatblygu, cynnal a chyflawni cynlluniau academaidd cenedlaethol y Coleg mewn modd strategol a chynaliadwy.

5. Dylid sicrhau bod pob aelod staff a gyflogir drwy grant o'r Cynllun Staffio Academaidd yn gweithredu ar sail yr un telerau a'u cydweithwyr adrannol. Ym mhob achos, dylai aelodau o staff academaidd a gyflogir yn sgil grant

drwy'r cynllun hwn gael yr un cyfle i ddatblygu eu gyrfa academaidd, er mwyn sicrhau y bydd modd iddynt fod yn rhan annatod o batrwm staffio'r sefydliad.

6. Mae sicrhau'r 'cyfle cyfartal' hwn yn allweddol nid yn unig o ran datblygiad personol yr aelod staff dan sylw, ond hefyd o ran sicrhau fod gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn derbyn yr un statws oddi fewn i adran / ysgol / sefydliad â gweithgareddau trwy gyfrwng y Saesneg.

Cyflogaeth

7. Yn achos swyddi i'w cyllido o 2015/16, bydd tri model posib ar gyfer cyflogaeth:
   - Swydd wedi ei chyllido 100%. Ni fyddai deiliaid y swyddi hyn yn dysgu drwy gyfrwng y Saesneg o gwbl.
   - Swydd wedi ei chyllido 75%. Bydd deiliaid y swyddi yma yn treulio o leiaf 75% o'u horiau dysgu yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Bydd amodau'r cyllido yn caniatáu rhywfaint o ddysgu drwy'r Saesneg os yw'r holl ofynion eraill yn cael eu cyflawni.
   - Swydd wedi ei chyllido 50%. Bydd deiliaid y swyddi yma yn treulio o leiaf 50% o'u horiau dysgu yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Ystyrir ceisiadau am y model hwn mewn achosion neilltuol yn unig a dylid ymgynghori â swyddogion y Coleg cyn cyflwyno cais o'r fath.

8. Bydd cyflog cychwynnol aelod staff yn dilyn trefn arferol y sefydliad, gyda'r cyflog yn cychwyn fan lleiaf ar bwynt 30. Bydd yn ofynnol i'r sefydliad ddilyn yr un patrwm o ran cynnig cyflog a gosod pwynt addas ar y raddfa ag y byddai'n gwneud ar gyfer unrhyw aelod arall o staff nad oedd yn cael ei gyllido drwy'r Coleg.

9. Ar gyfer pob swydd, bydd angen cytundeb yn y panel cyfweld, gan gynnwys cynrychiolydd y Coleg (gweler cymal 54 isod), ar y raddfa gyflogaeth a'r pwynt cychwyn ar y raddfa. Dylai'r cynnig adlewyrchu'r angen am gyfle cyfartal sydd wedi nodi uchod ond hefyd dalu sylw i'r ffaith mai fel swyddi ar gyfer

academyddion ar ddechrau gyrfa y bwriadwyd mwyafrif y swyddi hyn. Derbynnir y gall penodiadau i feysydd gwyddonol fod yn rhai ôl-ddoethuriaethol yn y lle cyntaf.

10. Mewn achosion lle mae achos cryf o blaid trefniadau cyflogi mwy hyblyg, bydd y Coleg yn fodlon ystyried penodiadau rhan-amser, rhannu swydd, neu secondiad – ar yr amod eu bod cyfwerth â swydd amser-llawn yn unol ag un o'r modelau cyllido a restrwyd uchod. Cyn hysbysebu swydd ar delerau felly, disgwylir i sefydliadau drafod y mater gyda'r Coleg a gallu cytuno ar drefniadau amgen. Ym mhob achos, bydd rhaid gallu dangos sut y bydd y sefydliad yn gwarantu parhad a dilyniant y ddarpariaeth a'r addysgu yn dilyn cyfnod y dyfarniad (yn enwedig yn achos secondiadau).

Cyfnod Prawf / Dyrchafiadau / Newid Gradd Gyflogaeth

11. Bydd pob apwyntiad yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf yn llwyddiannus. Bydd y cyfnod prawf yn adlewyrchu trefn arferol y sefydliad sydd yn cyflogi. Lle bo'n arfer yn y sefydliad i adlewyrchu cwblhau cyfnod prawf yn llwyddiannus drwy bwynt cyflogaeth yr aelod staff, bydd disgwyl i hynny ddigwydd yn yr un modd ar gyfer swyddi a gyllidir gan y Coleg. Bydd angen eglurdeb ysgrifenedig ynghylch unrhyw drefniadau o'r fath wrth apwyntio i'r swydd.

12. Mae'n arfer mewn rhai sefydliadau i gynnig swydd tiwtor (ar raddfa darlithydd) i ymgeiswyr cymwys sy'n dangos potensial clir ond nad ydynt o reidrwydd yn meddu ar record cyhoeddi ymchwil cadarn, nac o bosibl wedi ennill doethuriaeth eto. Ystyrir bod y math hwn o benodiad yn dderbyniol – cyn belled â bod amodau clir wedi eu gosod yn ysgrifenedig wrth apwyntio yn nodi'n eglur y camau y bydd angen i'r aelod staff eu cymryd er mwyn sicrhau dyrchafiad o swydd tiwtor i swydd darlithydd. Yn yr un modd, mewn meysydd gwyddonol, byddai'r Coleg yn barod i ystyried ceisiadau am swyddi ôl-ddoethuriaethol a all arwain at ddyrchafiad i swydd ddarlithio maes o law.

13. Os yw sefydliad yn dymuno dyrchafu unigolyn o swydd tiwtor i swydd darlithydd, bydd yn ofynnol i ddilyn unrhyw brosesau mewnol priodol oddi fewn i'r sefydliad, gan gynnwys, os yn briodol, gynyddu pwynt cyflogaeth neu raddfa gyflogaeth.

14. Mewn perthynas â dyrchafiadau o un raddfa gyflogaeth i'r llall, disgwylir i'r sefydliad ymgynghori'n llawn â'r Coleg ar unrhyw faterion a fyddai'n arwain at amrywiad i'r cytundeb cyllido ar gyfer y swydd. Mae gan y Coleg weithdrefn er mwyn ystyried ceisiadau gan sefydliadau i amrywio'r grant yn sgil dyrchafu deiliad a gyllidir drwy'r Cynllun Staffio Academaidd. Ni fydd y Coleg yn darparu rhagor o gyllid i sefydliadau i dalu costau ychwanegol sy'n deillio o ddyrchafiadau oni ddilynir y weithdrefn hon.

15. Bydd disgwyl i bob aelod staff a gyflogir trwy grant o'r Cynllun Staffio Academaidd i feddu ar Dystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch, neu gymhwyster cyfatebol. Os nad yw'n meddu ar gymhwyster o'r fath, bydd yn ofynnol i gwblhau'r dystysgrif, neu gymhwyster cyfatebol, o fewn tair blynedd.

Mentora / Cefnogaeth Staff

16. Fel yn achos unrhyw aelod arall o staff, bydd disgwyl i'r sefydliad ddarparu cefnogaeth briodol i'r aelod staff yn unol â threfniadau arferol y sefydliad. Gall hyn olygu dynodi mentor, gosod trefn cefnogaeth gan gydweithwyr, neu osod unrhyw drefn arall briodol mewn lle. Bydd y Coleg hefyd yn darparu hyfforddiant drwy'r Rhaglen Datblygiad Staff Academaidd er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus darlithwyr a noddir drwy'r Cynllun.

17. Mae aelod o Uwch Dîm Rheoli'r Coleg yn gweithredu fel prif gyswllt rhwng y Coleg a'r sefydliadau mewn perthynas â swyddi a gyllidir drwy'r Cynllun Staffio Academaidd. Mae'r Uwch Reolwr hwnnw yn gyfrifol am oruchwylio prosesau monitro'r swydd ar ran y Coleg ac i ddarparu cyngor a chefnogaeth i'r aelod o staff a / neu i'r adran academaidd, fel ag y bo'n briodol.

18. Ym mhob achos disgwylir i'r sefydliad, y Coleg a'r aelod staff gytuno ar raglen datblygiad proffesiynol fel ag y bydd yr aelod staff mewn sefyllfa gref i sicrhau gyrfa academaidd yn y tymor hir.

Dyletswyddau Addysgu

19. Yn achos pob swydd, bydd cytundeb cyllido ffurfiol rhwng y Coleg a'r sefydliad yn cael ei baratoi, a bydd y cytundeb hwn yn dynodi llwyth addysgu arfaethedig yr aelod staff. Bydd angen i'r llwyth addysgu adlewyrchu patrwm arferol yr adran / ysgol o ran disgwyliadau addysgu darlithwyr – h.y. os yw'n arferol i aelod staff addysgu 10 awr yr wythnos ar hyd at dri chwrs, dylai amodau'r aelod staff a gyllidir gan y Coleg adlewyrchu'r patrwm hwnnw.

20. Wrth baratoi cytundeb ar raglen waith a llwyth addysgu arfaethedig yr aelod staff, dylid nodi y gall fod galw ar yr aelod staff i gyfrannu at ddarpariaeth gydweithredol genedlaethol a / neu ddatblygu modiwlau / adnoddau cyfrwng Cymraeg o'r newydd.

21. Ni ellir rhagweld unrhyw amgylchiadau lle byddai llwyth addysgu'r aelod staff sydd wedi ei gyllido trwy'r Coleg yn sylweddol yn fwy na'i g/chydweithwyr yn yr adran / ysgol.

Ymchwil

22. Mae ymchwil yn rhan annatod o gyfrifoldebau staff academaidd mewn nifer fawr o'r adrannau prifysgol yng Nghymru. Ceir gwahaniaethau rhwng prifysgolion ac yn wir oddi fewn i brifysgolion ynghylch y pwyslais a roddir ar ymchwil sy'n addas ar gyfer y REF, ond ym mhob prifysgol ceir ymrwymiad at ysgolheictod a phwysigrwydd yr ysgolheictod hynny wrth gyfoethogi profiad addysgol y myfyriwr. Gallai hynny fod ar ffurf ymchwil sydd yn cyfoethogi'r addysgu yn ogystal ag ymchwil ar gyfer asesiad REF.

23. Disgwylir mai prif ddyletswydd pob aelod staff mewn swydd a gyllidir gan y Coleg fydd addysgu myfyrwyr. Er mwyn gwneud hynny'n effeithiol, gellid

disgwyl iddynt fod yn cyfrannu at fywyd deallusol prifysgolion Cymru drwy eu gwaith ymchwil. Bydd hyn yn gam pwysig at sicrhau cynaladwyedd y cynllun a datblygiad gyrfa'r staff a gyllidir.

24. Bydd disgwyliadau ymchwil darlithyddiaethau penodol yn cael eu cytuno ym mhob achos yn unigol, ond bydd gofyn i'r sefydliadau adlewyrchu'n addas batrwm disgwyliadau ymchwil darlithwyr eraill o fewn yr adran nad sydd yn cael eu cyllido drwy'r Coleg, e.e. os oes disgwyl i bob aelod staff oddi fewn i adran / ysgol fod yn ymchwil weithredol ar gyfer y REF yna bydd yr un disgwyliad i'r aelod staff cyfrwng Cymraeg.

25. Ym mhob achos, bydd y disgwyliadau ymchwil yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn llwyth gwaith addysgu'r aelod staff.

Gwaith Arall Perthnasol

26. Mae'n arferol i ddarlithwyr ymwneud â chyfrifoldebau eraill yn rhinwedd eu swydd, e.e. goruchwylio myfyrwyr doethuriaeth, cefnogi myfyrwyr israddedig fel tiwtor personol, ymwneud â chyfrifoldebau penodol o fewn adran / ysgol, e.e. Swyddog Arholiadau. Ym mhob achos, bydd angen cytuno ar gyfrifoldebau perthnasol o flaen llaw, a nodi ym mhob achos beth yw prif gyfrwng iaith y cyfrifoldeb. Awgrymir, er enghraifft, os oes gan adran / ysgol drefn o diwtoriaid personol academaidd, yna dylai'r aelod staff a gyllidir yn llawn drwy'r Coleg ymwneud â'r myfyrwyr hynny sy'n medru'r Gymraeg.

27. Yn aml mae gofyn i staff academaidd ymwneud â gweithgareddau marchnata – gall hyn fod trwy gyfrannu at ddiwrnodau agored, cyfweld darpar fyfyrwyr neu ymweld ag ysgolion. Os yw'r aelod staff a gyllidir gan y Coleg yn ymwneud â gweithgareddau o'r fath, dylai hynny gael ei dargedu tuag at fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg. Ni fydd disgwyl i aelod staff a gyllidir yn llawn drwy'r Coleg gyfrannu at weithgareddau marchnata / ymgysylltu cyfrwng Saesneg.

Trefniadau Ymarferol

28. Rhagwelir y bydd hyd at ugain o swyddi academaidd dynodedig cyfrwng Cymraeg ar gael yn y sector i ddechrau ym mlwyddyn academaidd 2015/16. Mae'r cylchlythyr hwn yn gwahodd ceisiadau am y swyddi hyn.

29. Bydd y Coleg yn cadw'r hawl i ddynodi darlithyddiaethau eraill y byddai'n dymuno eu cefnogi, yn seiliedig ar weithredu cynlluniau academaidd y Coleg mewn modd strategol er mwyn datblygu maes / meysydd penodol. Bydd y Coleg wedyn yn gwahodd sefydliadau i gynnig cartrefu'r darlithyddiaethau hynny.

30. Er bod modd i sefydliadau ymgeisio am swyddi drwy'r Cynllun Staffio er mwyn sicrhau dilyniant yn sgil Ysgoloriaeth Ymchwil sydd ar fin dod i ben, bydd ceisiadau o'r fath yn cael eu hystyried ar yr un telerau ac yn erbyn yr un meini prawf â cheisiadau eraill. Atgoffir sefydliadau mai eu cyfrifoldeb nhw yw creu swyddi y mae modd i'r deiliaid ymgeisio amdanynt ar ddiwedd dyfarniadau Ysgoloriaeth Ymchwil os na ddaw cyllid pellach drwy'r Coleg, a bod disgwyl iddynt gyflawni'r ymrwymiad hwnnw ym mhob achos.

31. Dylai pob swydd a gyllidir cael ei llenwi erbyn 29 Mai 2015 a dylai'r dyddiad cychwyn fod cyn neu ar 1 Medi 2015. Gorau oll os oes modd i benodiad gychwyn cyn gynted â phosibl er mwyn cyflawni rhaglen addysgu llawn ym mlwyddyn academaidd 2015/16.

32. Mae pob swydd a gyllidir gan y Coleg yn cael ei hystyried yn swydd ddynodedig cyfrwng Cymraeg. Bydd y swyddi fel arfer am gyfnod o bum mlynedd, yn y lle cyntaf, yn amodol ar gytuno cynllun cyllido, gan gynnwys targedau a gaiff eu hadolygu'n flynyddol. Bydd y Coleg yn cadw'r hawl i gyllido swydd am gyfnod byrrach yn y lle cyntaf.

33. Ar sail y rhagolygon ariannol presennol y mae'n bosib i'r Coleg, ar hyn o bryd, ddarparu cyllid tan 31 Mawrth 2017. Yn amodol ar sicrhau cyllideb ddigonol gan Lywodraeth Cymru, bydd y Coleg yn darparu cyllid am gyfnod o bum mlynedd – ond ni ellir gwarantu hynny ar hyn o bryd. Os am ba bynnag

reswm, na fydd modd i'r Coleg barhau i gyllido'r swydd y tu hwnt i 31 Mawrth 2017 (neu ddyddiad cynharach os yw'r rhagolygon ariannol yn newid), y sefydliad sydd yn cyflogi'r aelod staff fydd yn gyfrifol am unrhyw ymrwymiadau cytundebol. Yn yr un modd, y sefydliad sydd yn gyfrifol petai'r Coleg, am ba bynnag reswm, yn terfynu'r grant ar ddiwedd cyfnod o bum mlynedd, neu cyn hynny.

Cyllid

34. Bydd y Coleg yn talu swm fydd yn gyfartal â chostau cyflogaeth llawn y swydd, sef y gyflog, cyfraniad pensiwn a chyfraniad yswiriant cenedlaethol. Ni fydd y Coleg yn talu am orbenion megis gofod swyddfa ac ati.

35. Bydd y gyflogaeth ar bwynt priodol ar y raddfa gyflogaeth, fel arfer y pwynt cychwynnol ar gyfer swyddi academaidd, yn unol â'r hyn a nodir uchod (cymal 9). Yn achos staff a benodir i'w swydd academaidd gyntaf, bydd y penodiad, fel arfer, ar y pwynt graddfa gychwynnol ar gyfer swyddi academaidd.

Ceisiadau

36. Gwahoddir ceisiadau gan bob sefydliad sy'n darparu addysg uwch yng Nghymru. Gall pob sefydliad gyflwyno hyd at bum cais.

37. Gofynnir i'r sefydliadau restru'r ceisiadau yn nhrefn blaenoriaeth. Bydd hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth i'r Coleg o safbwynt y sefydliadau parthed gwerth strategol cymharol y gwahanol geisiadau. Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw'r Coleg yn ymrwymo i gyllido swyddi yn unol ag unrhyw restrau blaenoriaeth a gyflwynir.

38. Ar gyfer 2015/16 disgwylir i sefydliadau ddangos, ymhob achos, sut y mae'r cais (i) yn gyson â'r Cynllun Academaidd a gyhoeddwyd gan y Coleg ym Medi 2012, a (ii) yn gyson â'r cynlluniau datblygu pynciol perthnasol. Gwahoddir ceisiadau mewn meysydd ble mae potensial mesuradwy i ddatblygu'r ddarpariaeth a'r niferoedd sy'n astudio yn Gymraeg yn sylweddol, ond rhoddir

blaenoriaeth i'r swyddi hynny sy'n uniongyrchol berthnasol i flaenoriaethau a nodir mewn Cynlluniau Datblygu pwnc.

39. Dylai sefydliadau sicrhau bod gwybodaeth ystadegol swyddogol (o gofnodion HESA) yn cael ei chyflwyno gyda phob cais. Dylai'r wybodaeth gynnwys, fan lleiaf, y niferoedd o fyfyrwyr rhugl eu Cymraeg oddi fewn i'r pwnc arfaethedig, Cod JACS y pwnc / pynciau arfaethedig, a'r niferoedd sydd ar hyn o bryd yn astudio trwy'r Gymraeg. Dylai'r wybodaeth fod yn seiliedig ar gofnodion HESA 2012/13, a gellir cyflwyno data ar gyfer 2013/14 yn ogystal os yw'r data hwnnw ar gael.

40. Yn sgil Cylchlythyr 14/01: Targedau Cyfrwng Cymraeg 2015/16, rhaid i bob cais ddangos yn glir hefyd sut y byddai swydd ychwanegol yn cyfrannu at gyrraedd targed y sefydliad ar gyfer niferoedd myfyrwyr yn astudio o leiaf 5 credyd ac o leiaf 40 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2015/16.

41. Dylai'r cais ddarparu gwybodaeth am y nifer o oriau dysgu wythnosol tebygol a fyddai gan ddeiliad y swydd.

42. Dylai'r ceisiadau lle bo'n bosibl gyfeirio at Gynllun Ysgoloriaethau Israddedig y Coleg a'r cynlluniau gradd hynny fydd yn gymwys ar gyfer y Cynllun Prif Ysgoloriaethau a / neu'r Cynllun Ysgoloriaethau Cymhelliant.

43. Yn ogystal, dylai'r ceisiadau ddangos tystiolaeth glir fod galw am y dysgu arfaethedig ymysg myfyrwyr / darpar-fyfyrwyr, neu fod y sefydliad wedi targedu marchnad mewn dull rhagweithiol.

44. Dylid cyflwyno'r ceisiadau (ar y ffurflen briodol) erbyn hanner dydd ar **21 Tachwedd 2014. Rhaid i'r ffurflen gael ei chyflwyno yn Gymraeg. Ni fydd ceisiadau sydd yn torri'r rheol hon yn cael eu hystyried.**

45. Dylid cyflwyno copi caled ar gyfer pob cais, wedi ei lofnodi gan gynrychiolydd awdurdodedig y sefydliad. Caniateir cyflwyno copïau electronig erbyn y

dyddiad cau cyhyd â bod copi caled yn dilyn ymhen pum niwrnod gwaith. **Ni chaniateir ceisiadau hwyr o dan unrhyw amgylchiadau.**

46. **Os yw sefydliadau yn ansicr o ddilysrwydd cais arfaethedig dylid cysylltu â swyddogion y Coleg am gyngor cyn 27 Hydref 2014. Gwneir pob ymdrech i ddatrys unrhyw faterion cyn y dyddiad cau. Ni ellir sicrhau ymateb i ymholiadau o'r fath a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.**

47. Bydd y ceisiadau yn cael eu hystyried gan banel a fydd yn cyflwyno argymhellion i Gyfarwyddwyr y Coleg. Yn amodol ar gytundeb y Bwrdd i'r argymhellion bydd rhwydd hynt i'r sefydliadau hysbysebu'r swyddi drwy eu trefniadau mewnol (ond gan ddilyn rheoliadau'r Coleg ar y drefn hysbysebu a phenodi ym mhob achos fel y nodir isod) cyn gynted â phosibl.

48. Os na fydd swydd wedi ei llenwi erbyn 29 Mai 2015 bydd y Coleg yn cadw'r hawl i derfynu'r dyfarniad neu ei drosglwyddo i sefydliad arall.

Blaenoriaethu a Datblygu Meysydd Academaidd penodol

49. Yn dilyn buddsoddiad sylweddol gan y Coleg yn ystod pedwar cylch cyllido cyntaf y Cynllun Staffio Academaidd, ni fydd ceisiadau am swyddi yn y meysydd a ganlyn yn cael eu hystyried ar gyfer 2015/16:

- Cerddoriaeth
- Diwydiannau Creadigol
- Gwyddorau Chwaraeon
- Hanes a Hanes Cymru
- Ieithoedd
- Y Gyfraith
- Y Gymraeg

Er mwyn eglurder, bydd y Coleg yn diystyrru unrhyw geisiadau a ystyrir eu bod yn cynnwys elfen sylweddol o addysgu yn y meysydd yma, sut bynnag y diffinir y swydd gan y sefydliad wrth gyflwyno cais.

50. Ar sail y buddsoddiad diweddar hefyd yn y meysydd a restrir isod, ystyrir bod y capasiti staffio cyfrwng Cymraeg yn genedlaethol yn agos at gyflawni'r lefelau a awgrymwyd yng Nghynllun Academaidd y Coleg. O ganlyniad, ni fydd y Coleg yn ystyried ceisiadau yn y meysydd hyn heblaw bod modd cyflwyno achos cryf iawn. Os bydd sefydliad yn dymuno cyflwyno cais am swydd yn un o'r meysydd hyn dylid cysylltu â Phrif Weithredwr y Coleg cyn 6 Hydref 2014:

- Astudiaethau Addysg a Phlentyndod
- Gwleidyddiaeth
- Astudiaethau Busnes
- Daearyddiaeth
- Mathemateg a Ffiseg

Y Broses Ddyfarnu

51. Bydd Panel Grantiau'r Coleg yn ystyried y ceisiadau. Bydd argymhellion y panel yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg i'w cymeradwyo.

52. Yn amodol ar gytundeb y Cyfarwyddwyr i gyllido swyddi a argymhellir gan y panel, bydd targedau a deilliannau ar gyfer pob swydd yn cael eu cytuno gyda'r sefydliad(au).

53. Gan mai nifer penodol o swyddi fydd ar gael, mae'n bosibl y gallai'r panel orfod gwneud penderfyniadau anodd wrth gyflwyno argymhellion i'r Cyfarwyddwyr. Bydd penderfyniadau Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg ar yr argymhellion yn derfynol. Wrth gyflwyno ceisiadau bydd y sefydliadau yn derbyn yr amod yma. Ni ystyrir apeliadau yn erbyn penderfyniad y Coleg

Penodiadau

54. Bydd y sefydliadau yn gyfrifol am y penodiadau i'r swyddi a ddyfernir. Er mwyn cryfhau'r broses, a sicrhau penodiad ymgeisydd cymwys ymhob achos, bydd y Coleg yn penodi cynrychiolydd a fydd yn aelod llawn o bob panel

penodi. Gallai'r cynrychiolydd yma fod yn aelod o staff y brifysgol sydd yn penodi, yn un o swyddogion y Coleg, neu'n unigolyn allanol.

55. Bydd angen cadarnhad o gytundeb y Coleg i bob penodiad cyn i'r swydd gael ei chynnig yn ffurfiol. Bydd y Coleg yn trafod y drefn benodi ar gyfer pob swydd gyda'r brifysgol berthnasol, ond disgwylir i'r cyfweliadau ym mhob achos gael eu cynnal yn Gymraeg (gyda chefnogaeth cyfieithu-ar-y-pryd, os oes angen). Bydd y Coleg yn cyhoeddi hysbysebion yn y wasg genedlaethol Gymraeg ac yn darparu arweiniad i sefydliadau fydd hefyd yn dymuno hysbysebu eu hunain. Oni ddilynir yr amodau yma, ni fydd y Coleg yn cymeradwyo'r penodiad.

56. Bydd y Coleg yn dymuno fod cyfnod prawf, yn unol ag arfer y sefydliad, ar gyfer pob penodiad. Ceidw'r Coleg yr hawl i fynnu bod asesiad o anghenion hyfforddiant mewn sgiliau iaith Gymraeg yn cael ei gynnal cyn i'r penodiad gael ei gadarnhau. Mae'n bosibl y bydd gofyn i ddeiliaid ymgymryd â chwrs hyfforddiant pellach, e.e. hyfforddiant gloywi iaith er mwyn cryfhau eu gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

57. Bydd cytundeb cyllido, gan gynnwys targedau blynyddol ar gyfer pob penodiad unigol yn cael eu cytuno rhwng y Coleg a'r sefydliad perthnasol. Bydd y Coleg yn monitro cyflawniad y targedau hyn yn ofalus, a gofynnir am adroddiad monitro hanner blwyddyn a diwedd blwyddyn ar gyfer pob dyfarniad ym mhob blwyddyn academaidd. Os bydd angen, cynhelir cyfarfod yn ogystal gyda deiliaid swyddi a chynrychiolydd o adran / ysgol / sefydliad i drafod cynnydd y gwaith os bydd gan y Coleg unrhyw bryderon. Bydd parhad y swydd yn amodol ar fodloni prosesau monitro'r Coleg a bod cynnydd deiliad y swydd yn foddhaol.

58. Bydd pob swydd a gyllidir drwy'r Cynllun Staffio yn cael eu hadolygu'n ffurfiol yn ystod trydedd flwyddyn y swydd. Pwrpas yr adolygiad fydd asesu cynnydd y swydd a'r deiliad a noddir, ac i werthuso buddsoddiad y Coleg a chyfraniad y swydd tuag at gyflawni targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer niferoedd myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn genedlaethol, ac unrhyw

dargedau pynciol a osodir gan y Coleg (lle bo hynny'n berthnasol). Bydd hefyd yn gam cyntaf mewn proses i ystyried dilyniant i fuddsoddiad y Coleg ar ddiwedd cyfnod cyllido cychwynnol y Cynllun Staffio Academaidd.

Ymwadiad

59. Bydd y Coleg yn cadw'r hawl i osod amodau a thelerau, nad ydynt o reidrwydd wedi eu nodi yn y cylchlythyr hwn, ar gyfer unrhyw swyddi a gyllidir yn rhannol neu'n gyfan gwbwl gan y Coleg.